



Empower—Be the Change



Y mudiad

Mae Empower - Be The Change yn fenter gymdeithasol arobryn wedi'i lleoli yn Wrecsam sy'n cyflwyno cymwysterau arweinyddiaeth achrededig personol a phroffesiynol. Mae'r sefydliad yn grymuso pobl a thimau i adeiladu gwytnwch meddyliol cadarnhaol, gwireddu eu hunan-werth yn llawn a chyflawni eu potensial.

Mae'r Rhaglen Grymuso yn cefnogi unigolion i adeiladu eu gwytnwch meddyliol a'u hyder i sicrhau eu bod yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau yn eu bywydau, yn eu bywyd personol ond hefyd yn eu hamgylchedd gwaith neu amgylchedd hyfforddi / addysg.

Canlyniadau'r rhaglen

- Roedd 60% o'r cyfranogwyr a oedd mewn addysg yn teimlo yn fwy grymus i wneud penderfyniadau ar ôl mynychu'r rhaglen.
- Roedd cyfranogwyr di-waith yn teimlo bod eu hunan hyder wedi gwella a hefyd yn teimlo'n fwy hyderus wrth chwilio am gyflogaeth.
- Roedd 60% o'r cyfranogwyr cyflogedig yn teimlo bod eu lles meddyliol wedi gwella.
- Mae gan y deilliannau gysylltiad uniongyrchol â nodau llesiant Cymru, yn enwedig Cymru iachach. Roedd helpu unigolion i deimlo yn fwy grymus a sicrhau gwytnwch meddyliol yn newidiadau allweddol pwysig.



Camau nesaf

"Mae bod yn rhan o brosiect Social Value Cymru wedi bod yn amhrisiadwy i Empower—Be The Change. Fel mentor gymdeithasol gymharol newydd, mae wedi bod yn wych derbyn cymaint o gefnogaeth gan Eleri a'r tîm fel y gallem yn gyntaf nodi'r gwir ganlyniadau y mae ein cyfranogwyr yn eu hennill o'n rhaglenni ac yn ail weithredu offer mesur cadarn a pherthnasol i ni fesur y gwerth ac effaith yn barhaus.

Mae'r rhaglen wedi ein helpu i nodi pryd a sut rydym yn creu gwerth, nodi targedau segmentau a dechrau gwneud penderfyniadau mwy strategol ynghylch sut rydym yn defnyddio ein buddsoddiad. Mae mesur gwerth cymdeithasol wedi ymgorffori ym mhopeth a wnawn fel cwmni ac ni fyddai hyn wedi digwydd heb gefnogaeth Social Value Cymru."

Jo Clay, Sylfaenydd ac Arweinydd Arloesi



svc@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com/social-value-cymru.html

